

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot Gorffennaf 2020

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

NEATH PORT TALBOT
PUBLIC SERVICES BOARD

## Rhagair



Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ei Gynllun Lles ar gyfer y fwrdeistref sirol - "Y Castell-nedd Port Talbot a Garem" - ym mis Mai 2018, yn dilyn asesiad cynhwysfawr o les y boblogaeth leol a phroses ymgynghori ac ymgysylltu helaeth gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Rydym yn falch o gyhoeddi'n hail adroddiad blynyddol, sy'n dogfennu'r cynnydd rydym yn ei wneud o ran y blaenoriaethau a nodwyd yn ein cynllun. Yn ystod yr ail flwyddyn o gyflwyno'n Cynllun Lles, cafwyd cynnydd gwych yn rhai o'n meysydd gwaith a llai o gynnydd mewn meysydd eraill, ac mae perthnasoedd rhwng asiantaethau partner wedi datblygu'n gadarnhaol. Mae hefyd wedi bod yn amserol eleni i adlewyrchu ar ein cynnydd hyd yn hyn ac ystyried y meysydd gwaith y gallwn effeithio arnynt orau mewn ffordd gydweithredol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac yn manylu ar sut byddwn yn strwythuro'n gwaith wrth symud ymlaen er mwyn gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i ni ddiogelu lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl leol, a hynny mewn modd cynaliadwy. Yn dilyn digwyddiadau digynsail yr ychydig fisoedd diwethaf a'r effaith ar y gymuned oherwydd cychwyniad COVID-19, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymroddedig i arwain ar y rhaglen adferiad amlasiantaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Byddwn yn adeiladu ar y cryfder a'r cadernid y mae cymunedau wedi'u dangos drwy gydol y pandemig, ac yn eu cefnogi yn ein hymateb i'r pandemig ac yn y cyfnod adfer.

Gobeithiwn y bydd diddordeb gennych yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud, ac rydym yn croesawu syniadau a chyfraniadau a all arwain at newid er mwyn creu'r Castell-nedd Port Talbot a garem.

**Y Cyng. Rob Jones, Cadeirydd**

**Roger Thomas, Is-gadeirydd**

**Ein Partneriaid yn Castell-nedd Port Talbot**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

SOUTH WALES POLICE
HEDDLU DE CYMRU
ICH DIEN

Tai Tarian

GRŴP COLEGAU
NPTC
GROUP OF COLLEGES

pobl

NEATH
PORT TALBOT
CVS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Department for Work & Pensions

Adran Gwaith a Phensiynau

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru

HM Prison & Probation Service in Wales

COEDFFRANC TOWN COUNCIL

Cyngor Cymuned
Blaenhonddan
Community Council

Swansea
University
Prifysgol
Abertawe

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Neath Town Council
Cyngor Tref Castell-nedd

COASTAL
Housing Group

## Cefndir



Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru i annog sefydliadau lleol i weithio ar y cyd, a chyda phoblogaethau lleol er mwyn gwella lles y bobl sy'n byw yn eu hardal. Disgrifir y ffordd yr hoffai Llywodraeth Cymru gyflawni hyn yn ymarferol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mewn canllawiau eraill.

Cynhaliodd y Bwrdd asesiad lles cynhwysfawr o'r boblogaeth leol, sy'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ystadegol am y pethau niferus a all effeithio ar les. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau troseddu ac anrhefn, cyrhaeddiad addysgol, yn ogystal â chyfraddau marwoldeb a chyffredinolrwydd clefydau etc. Roedd y Bwrdd hefyd wedi casglu barn amrywiaeth eang o bobl am yr hyn sy'n bwysig i'w lles. Yn olaf, roedd yr asesiad y cynnwys Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, a oedd yn nodi nifer o faterion a fyddai'n debygol o effeithio ar les dros y 30 o flynyddoedd nesaf, neu fwy.

Defnyddiodd y Bwrdd ganfyddiadau'r Asesiad Lles er mwyn paratoi'r Cynllun Lles, a gyhoeddwyd yn 2018. Mae'r cynllun yn rhestru'r chwe amcan lles a ddewiswyd gan y Bwrdd er mwyn llywio cyfeiriad ei waith.

Asesiad Lles Castell-nedd Port Talbot

Cynllun Lles Castell-nedd Port Talbot

Adroddiad Blynyddol 1af BGC Castell-nedd Port Talbot

**Amcanion Lles 2018-2023**

1. Gwella lles plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig y rheini sydd mewn perygl o brofiad niweidiol yn ystod plentyndod (Arweinydd: Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Cyngor CNPT;)

2. Adeiladu cymunedau diogel, hyderus a chadarn (Arweinydd: Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai);

3. Creu amgylchedd lle gall pawb heneiddio'n dda (Arweinydd: Dirprwy Brif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru);

4. Cefnogi lles drwy waith ac yn y gweithle (Arweinydd: Bwrdd Iechyd Bae Abertawe).

5. Gwarchod a gwella'n hisadeiledd gwyrdd (Arweinydd: Rheolwr Rhanbarthol, Cyfoeth Naturiol Cymru);

6. Cynyddu lefelau cyfranogiad/cynhwysiad digidol (Arweinydd: Prif Weithredwr Cynorthwyol, y cyngor).

## Y Weledigaeth



Rydym am i Gastell-nedd Port Talbot fod yn lle bywiog ac iach lle mae gan bobl gyfle cyfartal i ddatblygu yn eu bywydau - rhywle y mae pobl am fyw, dysgu, gweithio a buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef am genedlaethau i ddod.

Rydym am i wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y Trydydd Sector, fod yn effeithiol ac yn werth da am arian, yn hawdd i bobl eu defnyddio a chynnig cyflogaeth o safon lle caiff pobl eu gwerthfawrogi am y gwaith maent yn ei wneud. Gyda dinasyddion, byddwn yn adeiladu ar ein cymunedau cryf a chydlynol lle caiff hawliau pawb eu parchu a'u diogelu.

Rydym am i'n gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn wydn ac yn gadarn, a bydd yn arferol i ddinasyddion brofi gwasanaethau di-fwlch, personoledig ac o safon. Bydd cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn creu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddi a fydd yn galluogi i'r fwrdeistref sirol ddenu a chynnal cyflogaeth gynaliadwy o safon i bobl leol.

Bydd ein cymunedau wedi'u cysylltu'n dda trwy isadeiledd digidol a chludiant o'r radd flaenaf a chaiff ein hamgylchedd naturiol ei warchod a hefyd ei ddatblygu i gefnogi byw iach a buddsoddi.

Byddwn wedi cyflawni'n gweledigaeth pan fydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd; pan fydd gan yr holl bobl ifanc ac oedolion y sgiliau a'r gwydnwch i fod yn iach ac yn ffyniannus; pan bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; pan fydd ein holl gymunedau'n ffynnu ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw ynddynt; a lle gall pobl dderbyn cefnogaeth gan gymdogion a rhwydweithiau cymdeithasol datblygedig.





*Ym mis Chwefror 2020, derbyniodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT ymweliad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe. Cafodd partneriaid y cyfle i rannu'r gwaith da a oedd yn cael ei wneud yng Nghastell-nedd Port Talbot a hefyd i drafod unrhyw broblemau neu heriau roeddent yn eu hwynebu. Rhoddodd y Comisiynydd adborth ar adroddiad blynyddol y llynedd, gan nodi meysydd i'w gwella, a rhannodd enghreifftiau o arfer da a welwyd mewn mannau eraill yng Nghymru.*

## Cynnydd 2019-20




---

***Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant mewn perygl o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod***

---



*1 - Ngymuned Plant Gorllewin Sandfields*

Cyflogir Arweinydd Cymunedol i Blant er mwyn ymgysylltu â theuluoedd a chydlynu gweithgareddau iddynt mewn man sy'n addas i deuluoedd, ac a addaswyd at y diben yn Nhir Morfa. Mae Cymuned Plant Gorllewin Sandfields (CPGS) yn parhau i fod yn adnodd sy'n cael ei ddefnyddio'n dda gan bartneriaid, gan ddarparu canolfan ar gyfer gweithgareddau a gydlynwyd i deuluoedd. Mae'r gweithgareddau a ddarperir gan CPGS yn cynnwys tylino babanod, blwch chwarae (gweithgareddau chwarae sy'n seiliedig ar iaith a rhifau), magu plant a chyfleoedd chwarae integredig.

Sefydlwyd grwpiau strategol a gweithredol i ddatblygu cynllun cyflawni CPGS a'i roi ar waith. Trefnwyd cyfarfod ar ffurf gweithdy gyda'r grŵp strategol ym mis Mawrth er mwyn ystyried y cynllun gweithredu a'r mesurau ar gyfer 2020/21, ond fe'i gohiriwyd oherwydd cychwyniad COVID-19.

Sefydlwyd "Canolfannau Cefnogaeth Barhaus" ym mhob ysgol yn ardal Gorllewin Sandfields. Fe'u cynhelir gan wasanaethau gwahanol yng Nghastell-nedd Port Talbot, e.e. Tîm am y Teulu, Gwasanaethau Lles, y Cynnig Gofal Plant, y Tîm Plant a Theuluoedd, Dechrau'n Deg, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Chymunedau am Waith a Mwy, y gymdeithas tai lleol, tîm yr amgylchedd ac eraill.

[Grŵp Tiny Tots yng Ngymuned Plant Gorllewin Sandfields - fideo]

Mae'r Arweinydd Cymunedol wedi sefydlu perthnasoedd da ag ysgolion lleol, yr heddlu a sefydliadau'r trydydd sector. Mae cynlluniau i gyflogi Swyddog Cynnwys rhan amser er mwyn parhau â'r gwaith hwn, a'i ehangu drwy gynnwys eglwysi, grwpiau a gynhelir gan deuluoedd, llyfrgelloedd etc.

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut gall y gwasanaeth Olrhain Teuluoedd ag Incwm Isel (LIFT) helpu i dargedu'r teuluoedd hynny a all elwa fwyaf o gael cefnogaeth. Mae swyddogion yn rhan o'r is-grŵp LIFT er mwyn sicrhau y cydlynir gweithgareddau targedu/hyrwyddo â meysydd gwasanaeth eraill.

**Cymerwch gip ar rywfaint o'r hwyl a sbri a gafwyd yng Nghymuned Plant Gorllewin Sandfields**














CHOO CHOO
clickety-clack!






Ffaith - Mae dros 208 o oedolion wedi defnyddio'r prosiect hyd yn hyn. Mae llawer ohonynt yn parhau i gymryd rhan yn rheolaidd.

*'Mae'n braf cwrdd â thadau eraill sy'n debyg i fi, ac mae Jamie fel un ohonom ni - rydyn ni wir yn gallu uniaethu ag ef'*

*'Mae fy mab yn dwlu ar ddod i'r grŵp bob dydd Sadwrn - mae e' wedi gwneud ffrindiau newydd, ac mae e' wedi magu hyder. Mae'n teimlo' i fod yn rhan o rywbeth, ac nid yn 'blentyn awtistig' yn unig. Mae'r grŵp hwn hefyd yn fy helpu i dreulio amser gyda fy merch, ac mae wedi ein helpu i feithrin perthynas well gan ei bod hi'n gwybod mai hi sy'n cael fy sylw llawn am ychydig oriau bob dydd Sadwrn'*

*'Roedd menywod y grŵp wedi fy helpu gyda'm sefyllfa ariannol. Roedd cywilydd arna i, ac roedden nhw wedi fy helpu i oresgyn hynny'.*



*2 - **Atal***

***Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn***

*[Adeiladu Cymunedau Diogel a Chadarn yng Nghastell-nedd Port Talbot (fideo)]*

Mae'r Grwpiau Arweinyddiaeth a Rheolaeth Strategol wedi bod yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sefydlu sylfaen gref ar gyfer y rhaglen. Cytunwyd ar weledigaeth, gwerthoedd a meysydd ffocws fframwaith y Cynllun Strategol. Datblygwyd strategaeth gyfathrebu, gyda chynllun cyfathrebu a chynnwys clir.

Mae staff ar gael i gefnogi cyflwyno'r rhaglen, gan gynnwys Swyddog Datblygu Cymunedol, Swyddog Datblygu Gwirfoddol, Gweinyddwr Grantiau, Rheolwr Rhaglen a Swyddog Cefnogi Busnes.

Sefydlwyd dau grŵp gweithredol amlddisgyblaeth mewn dwy ardal (un ar gyfer pob ardal beilot, sef Llansawel/Melin a Dyffryn Aman Uchaf). Mae'r ddau grŵp gweithredol yn cynnwys rheolwyr/arweinwyr tîm/goruchwylwyr staff sy'n gweithio yn y cymunedau priodol. Bydd y grwpiau gweithredol yn allweddol wrth gyflawni'r ffrydiau gwaith.

Mae £300,000 o arian grant 'Cyflwyno a Chreu' ar gael i gefnogi Grwpiau Cymunedol Gwirfoddol/Mentrau Cymdeithasol yn ardal Llansawel/Melin. Ariannwyd 13 o brosiectau/sefydliadau hyd yn hyn. Mae enghreifftiau o'r prosiectau a gefnogwyd yn cynnwys:

- Gwasanaethau cefnogi ychwanegol i rieni/gofalwyr y rheini ag anghenion ychwanegol

- Trawsnewid adeilad ysgol gwag yn Ganolfan Gymunedol sy'n cynnig gweithgareddau i bobl o bob oedran
- Gwell cysylltiadau cymdeithasol, gan arwain at lai o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol
- Datblygu gweithgarwch mentrau cymdeithasol er mwyn cefnogi preswylwyr diamddiffyn/hŷn
- Gweithgareddau gwrthdyniadol newydd i blant a phobl ifanc lleol, dan arweiniad gwirfoddolwyr
- Gwell cyfleusterau ar gyfer cyrsiau hyfforddiant lleol
- Gwaith i adnewyddu sawl adeilad a gynhelir yn gymunedol



Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu er mwyn gofyn i unigolion am yr hyn sy'n dda am lle maent yn byw, gan gynnwys holiadur ymgysylltu sydd ar-gael i'w gwblhau ar-lein ac all-lein.

Pan ofynnwyd iddynt am y bobl bwysicaf yn eu cymunedau, yr atebion mwyaf poblogaidd oedd teulu, ffrindiau a chymdogion, yna gweithwyr iechyd a gwirfoddolwyr. Yr asedau a oedd bwysicaf iddynt oedd mannau gwyrdd agored, siopau a meddygfeydd/canolfannau iechyd.

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau eisoes yn yr ardaloedd peilot er mwyn cynnwys y gymuned, adeiladu ar gryfderau a chreu cysylltiadau.



*3 - Cyfranogiad*

Rydym wedi cynnal y canlynol:

2 ddiwrnod agored i ddod â phartneriaid ynghyd i rwydweithio ac ymgysylltu ag aelodau'r gymuned. Daeth cyfanswm o 145 o unigolion i'r diwrnodau hyn.

3 chyfarfod cyhoeddus i ddod â phawb ynghyd yn ystod diwrnodau cynnar y Rhaglen i roi negeseuon clir am ystyr Adeiladu Cymunedau Diogel a Chadarn. Cynhaliwyd gweithdai i nodi cryfderau pob ardal ac i drafod sut gallwn gynorthwyo'n gilydd i ddatblygu'r cryfderau hyn. Daeth cyfanswm o 95 o unigolion i'r gweithdai hyn.

2 ffair wirfoddoli i ddod â sefydliadau a oedd am recriwtio gwirfoddolwyr ynghyd. Roedd cyfle i unigolion alw heibio a chael rhagor o wybodaeth am y cyfleodd gwirfoddoli a oedd ar gael yn yr ardal, a sut i gymryd rhan. Gwelsom 14 o sefydliadau'n recriwtio yn Llansawel a Melin, ac 17 o sefydliadau'n recriwtio yng Nghwm Afan Uchaf a Chwm Tawe.

2 seremoni wobrwyo ar gyfer gwirfoddolwyr i ddathlu'r gweithgarwch gwirfoddol anhygoel sy'n cael ei wneud yn yr ardaloedd peilot. Daeth 264 o unigolion i'r seremonïau gwobrwyo hyn, ac enillodd cyfanswm o 50 o wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol wobrau cydnabyddiaeth.

BSRC VSA 2019 Fan Community Alliance - fideo

BSRC VSA 2020 Mari Thomas - fideo

BSRC VSA 2020 Martin Harries - fideo

Gwobrau Volunteer Star





Mae ymgysylltu ag Aelodau Cynulliad a Chynghorwyr Lleol wedi bod yn allweddol er mwyn rhoi'r diweddaraf iddynt am yr hyn a oedd yn digwydd yn y cymunedau, a sut gallwn gefnogi'n gilydd i adeiladu ar yr asedau a'r brwdfrydedd a welir ym mhob ardal beilot.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu mewn ffyrdd eraill, megis drwy gynnal cystadlaethau cardiau post mewn ysgolion cynradd lleol, lle dyluniodd y disgyblion gardiau post drwy dynnu lluniau o'r pethau maent yn eu hoffi am eu cymuned. Rydym hefyd wedi cyflwyno sgyrsiau i grwpiau o ofalwyr ifanc er mwyn canfod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, ac aethom i glinigau ffliw lleol i ymgysylltu â phreswylwyr lleol.

Rydym wedi bod i amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol a gynhaliwyd gan eraill, gan gynnwys diwrnod hwyl nos galan gaeaf, lle anogwyd plant a phobl ifanc i ysgrifennu'r hyn roeddent yn ei hoffi am y gymuned leol.

Cytunwyd ar gam cyntaf Cynllun Hyfforddiant i staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen beilot, ac fe'i dechreuwyd ym mis Ionawr 2020.

Mae'r rhaglen hon wedi herio ffyrdd sefydledig o weithio yn ogystal â gwahaniaethau diwylliannol rhwng sefydliadau; mae ymroddiad staff ar draws yr holl asiantaethau wedi bod yn hanfodol.

Mae'n rhaglen o newid tymor hir, lle treuliwyd amser i sefydlu strwythurau/systemau i gefnogi sail y rhaglen. Rydym bellach ar y cam o'r rhaglen lle'r ydym yn dechrau gweithio mewn ffordd gydweithredol, gan ymgysylltu ag aelodau'r gymuned ac asedau a nodi unrhyw feysydd angen er mwyn datblygu cadernid cymunedol.

Caiff y rhaglen ei gwerthuso fel rhan o Drawsnewidiad Clwstwr Cyfan Gorllewin Morgannwg, a fydd yn darparu data dibynadwy fel tystiolaeth o effeithiolrwydd y rhaglen Adeiladu Cymunedau Diogel a Chadarn.

Gan edrych i'r dyfodol, ac fel rhan o'r ymagwedd newydd y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei dilyn, sy'n seiliedig ar leoedd, caiff dadansoddiad data ehangach ei gynnal er mwyn edrych ar anghenion yr ardaloedd peilot a sefydlu gwaelodlinau a dealltwriaeth well o themâu.




## *Rhoi mwy o fywyd yn ein blynyddoedd hŷn - Heneiddio'n Dda*

Mae'r Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda wedi parhau i gefnogi'r gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o ddementia yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac mae wedi cael mewnbwn gan y Gymdeithas Alzheimer yn rheolaidd. Anogwyd aelodau'r grŵp i ddatblygu trefniadau Ystyriol o Ddementia o fewn eu sefydliadu perthnasol, ac mae gwaith wedi datblygu'n sylweddol eleni gan fod partneriaid wedi cefnogi'i gilydd yn y gwaith hwn drwy gyfarfodydd rheolaidd a rhwydweithio.

Mae hyn yn ategu gwaith y rhaglen Adeiladu Cymunedau Diogel a Chadarn, sy'n gweithio tuag at ennill statws Ystyriol o Ddementia yn eu hardaloedd peilot. Gwnaed y cysylltiadau priodol ac mae gwaith yn parhau.

Mae awydd pob sefydliad partner sy'n ymwneud â rhaglen Heneiddio'n Dda BGC CNPT i groesawu, datblygu a chynnwys gweithlu sy'n ystyriol o bobl hŷn a dementia yn amlwg, a chynhelir ffocws parhaus am y dyfodol rhagweladwy.



*4 - **Integreiddio***

Enillodd CBSCNPT statws fel sefydliad sy'n Ystyriol o Ddementia ym mis Chwefror 2020. Cynlluniwyd digwyddiad ar gyfer mis Ebrill gan y Gynghrair Pobl Hŷn. Roedd disgwyl i'r Comisiynydd Pobl Hŷn fod yn bresennol, a byddai CBSCNPT wedi derbyn ei wobr. Yn anffodus, canslwyd y digwyddiad hwn oherwydd cychwyniad COVID-19.

Mae partneriaid wedi cyfrannu'n gadarnhaol at drafodaethau ynghylch y thema 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC)', sy'n ymwneud â'r ffrwd waith unigrwydd ac unigedd, ac maent wedi ystyried modelau amrywiol sy'n gweithredu ar hyn o bryd. Roedd y Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda wedi cydnabod yr angen i gynllunio model rhesymeg o gwmpas y gwaith hwn er mwyn sicrhau bod yr angen a'r canlyniad a ddymunir yn glir. Cytunwyd y byddai'r maes gwaith hwn yn gweithio'n dda fel peilot ar gyfer dilyn ymagwedd sy'n seiliedig ar leoedd. Cynllunnir gwaith pellach i sicrhau y gall y gwaith hwn gyfrannu at ychydig o'r gwaith sy'n seiliedig ar leoedd a wnaed eisoes, a'i ategu, er mwyn osgoi dyblygu gwaith a negeseuon sy'n gwrthdaro.

Cafwyd heriau eleni o ran cyflwyno rhai o'r ffrydiau gwaith eraill a nodwyd dan yr amcan hwn, gan nad ydynt wedi gallu datblygu heb ymrwymiad a chyfranogaeth partneriaid penodol. Ar ôl adolygu'r amcanion lles, cytunodd y BGC mai'r ffordd fwyaf cadarnhaol a chynhyrchiol o ddatblygu'r gwaith hollbwysig hwn yw drwy gysylltu'r gwaith â'r ardaloedd peilot presennol a chyfrannu at y gwaith sy'n dod i'r amlwg yn yr ardaloedd hynny, gan ganolbwyntio ar bobl hŷn a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.



## *Hyrwyddo lles drwy waith ac yn y gweithle*

Ymddeolodd Swyddog Arweiniol yr amcan lles hwn yn 2019, ac oherwydd problemau adnoddau, nid yw wedi bod yn bosib datblygu'r maes gwaith hwn yn ystod yr amserlen adrodd.

Mae trafodaethau wedi parhau am y llif gwaith hwn ac, yn dilyn adolygiad o'r amcanion lles, cytunwyd y gellid datblygu'r nod hwn drwy raglen datblygu'r gweithlu ar gyfer asiantaethau partner y BGC. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn y bennod 'Edrych i'r Dyfodol'.



## *Amddiffyn a gwella ein seilwaith gwyrdd*


Mae'r grŵp amlasiantaeth Isadeiledd Gwyrdd wedi parhau i gwrdd eleni, gan ganolbwyntio ar gyflwyno Rhaglen Grant Cyfalaf IG Llywodraeth Cymru.

Roedd y Prosiect Cysylltu Isadeiledd Gwyrdd wedi cyflwyno ymagwedd newydd a chydweithredol at ddylunio a chyflwyno isadeiledd gwyrdd (IG) ar draws Castell-nedd Port Talbot (CNPT), Abertawe a Sir Gâr, er budd cymunedau lleol a'u hamgylchedd naturiol. Gyda Chyngor CNPT yn arwain y gwaith, cyflwynwyd IG mewn ffyrdd a oedd yn diwallu anghenion lleol, yn cefnogi cymunedau a'u hiechyd, yn adeiladu cydnerthedd ecosystemau ac yn gwella bioamrywiaeth.

Cyflwynwyd y prosiect gan aelodau'r Grŵp Llywio, sef y Partner Arweiniol, Cyngor Castell-nedd Port Talbot; Partneriaid Cyflwyno, Cyngor Abertawe, Cyngor Sir Gâr, Cymdeithas Coedwigoedd Bychain a Chyngor Tref Cwmaman; a phartneriaid cydweithredol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, roedd gweithgareddau a chanlyniadau prosiectau'n helaeth ac yn amrywiol, ac yn cynnwys:

- Rheoli gwarchodfeydd natur lleol, parciau coetirol, safleoedd cymunedol a pharciau yn ymarferol, yn ogystal â
- Gwella ardaloedd trefol a thiroedd ysgolion, gan gynnwys plannu coed helaeth (5620 o goed ifanc a 160 o goed mawr arferol), y bydd pob un ohonynt yn darparu gwasanaethau ecosystem yn ogystal â gwanhau sŵn a denu peillwyr.
- Drwy'r prosiect Gweithio gyda Natur (a ariennir hefyd drwy LEADER y RhDG), cysylltwyd â gwirfoddolwyr a chyfranogwyr o CNPT er mwyn iddynt helpu i reoli safleoedd a mwynhau manteision safleoedd natur leol.
- Cyflwyno gweithgareddau iechyd a lles mewn ffordd benodol, gyda chyfranogwyr yn adrodd am gynnydd amlwg yn eu lles corfforol a meddyliol.
- Cynnwys rhanddeiliaid yn y prosiect ar gyfer gweithgareddau a gyflwynir eleni a gweithgareddau parhaus, os sicrheir cyllid yn y dyfodol fel rhan o ffrwd ariannu Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (ENRaW) y RhDG.



*5 - **Hirdymor***



Fel thema drawsbynciol, mae cynrychiolwyr y Grŵp Llywio wedi bod â rhan yng ngwaith y Rhaglen Adeiladau Cymunedau Diogel a Chadarn o ran mannau gwyrdd yn yr ardaloedd peilot.

Yn Llansawel/Melin, mae'r grŵp wedi helpu i lunio cais am gyllid 'Cyflwyno a Chreu', ar y cyd â Chyfeillion Parc Llansawel, ac wedi helpu i gynghori ar wella'r pwll a chreu dôl blodau gwyllt, sy'n rhan o'r cynllun gwaith ar gyfer y cais hwn. Cysylltwyd â disgyblion yr ysgol gynradd leol hefyd er mwyn cael gwybod yr hyn yr hoffen nhw ei weld yn y parc hefyd. Mae cynlluniau i gynnal 'BioBlits' (arolwg bioamrywiaeth) gydag aelodau eraill o'r Bartneriaeth Natur Leol, er nad oes modd cynnal y digwyddiad hwn ym mis Mehefin mwyach, cyfnod a fyddai wedi bod yn ddelfrydol. Caiff y gweithgareddau eu hadolygu wrth i'r cyfyngiadau COVID gael eu llacio.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd yr amcan hwn yn rhan fawr o'r ymagwedd sy'n seiliedig ar leoedd, ac yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd eisoes yn yr ardaloedd peilot. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi eu Datganiad Ardal De-orllewin Cymru yn ddiweddar, a bydd yn hanfodol i ni gael y diweddaraf am ganfyddiadau'r datganiad hwn wrth i ni weithio tuag at ein nod lles o greu Cymru Gydnerth.

Datganiad Ardal De-orllewin Cymru CNC




*Cynyddu Cynhwysiad Digidol*

Mae gwaith o gwmpas yr amcan hwn wedi cynyddu'n sylweddol drwy'r grŵp strategol amlasiantaeth Cynhwysiad Digidol, gyda rhai ffrydiau gwaith ar fin cael eu cwblhau.

Gwnaeth pob un o'r asiantaethau BGC ymrwymiad ffurfiol i weithio tuag at egwyddorion y siarter cynhwysiad digidol fel bod yr angen i ddarparu ar gyfer pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn cael ei adlewyrchu mewn strategaethau asiantaethau digidol a chynlluniau cydraddoldeb asiantaethau. Mae asiantaethau wedi rhannu eu cynnydd wrth weithio tuag at yr egwyddorion hynny, gan gynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol CNPT, Tai Tarian, Grŵp Colegau CNPT a Heddlu De Cymru. Cydnabuwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol CNPT yn ffurfiol gan Gymunedau Digidol Cymru am ei waith ar gynhwysiad digidol.

Mae'r gwaith a ddechreuwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi dylanwadu ar ganllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru.

Nodwyd natur strategol a thrawsbynciol y gwaith a wnaed gan BGC Castell-nedd Port Talbot fel enghraifft o arfer da gan Gymunedau Digidol Cymru.





*6 - **Cynnwys***

Mae'r Llysgennad Cynhwysiad Digidol, a ariennir drwy grant y Rhaglen Datblygu Gwledig ac a gefnogir gan y Grŵp Llywio, wedi parhau i hyrwyddo pwysigrwydd cynhwysiad digidol i sefydliadau'r trydydd sector. Mae e' hefyd wedi gweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol drwy gydol y flwyddyn, gan ennyn diddordeb a magu hyder, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, i ddefnyddio'r rhyngrwyd, gyda rhai grwpiau'n sicrhau cyllid ar gyfer isadeiledd digidol yn dilyn hyn, er mwyn datblygu eu gwaith.

[Llysgennad Cynhwysiad Digidol - fideo]

Rhoddwyd cyflwyniad ar fanteision defnyddio gwasanaethau digidol i 10 grŵp cymunedol, ac mae cyfanswm o 352 o unigolion wedi elwa ohono!

Mae sesiynau wythnosol sy'n cynnig cefnogaeth a hyfforddiant digidol ar waith mewn 3 ardal wledig wahanol yn y fwrdeistref sirol.

Gwyddom mai un o'r rhesymau sy'n rhwystro pobl rhag defnyddio'r rhyngrwyd yw ofni cael eu hecsbloetio ar-lein. Arweiniodd Heddlu De Cymru ddarn o waith i nodi'r bygythiad o seiber-droseddu a'r mesurau ataliol y gellid eu mabwysiadu i amddiffyn pobl rhag ecsbloetiaeth. Mae Grŵp Llywio bach wedi sefydlu rhaglen graidd ar ffurf cyflwyniad, ac fe'i cyflwynwyd i nifer o fforymau. Cafwyd ymateb da i'r rhaglen gan asiantaethau. Mae asiantaethau'n rhaeadru'r rhaglen drwy eu sianeli. Mae ymgyrch atal seiber-droseddu flynyddol yn cael ei dylunio fel rhan o gynllun gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i gefnogi'r rhaglen, a bydd yn amlygu risgiau penodol ar adegau penodol o'r flwyddyn. Er enghraifft, trwy dynnu sylw at sut gall prynwyr amddiffyn eu hunain rhag twyll pan fyddant yn siopa ar-lein yn y cyfnod cyn y Nadolig etc.

Mae datblygu'r isadeiledd digidol ar draws y fwrdeistref sirol wedi dod yn elfen graidd o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, a bydd yr amserlen ar gyfer mynd i'r afael ac eithrio digidol, a achosir gan gysylltedd gwael/diffyg cysylltedd, yn cael ei fodloni drwy'r rhaglen ranbarthol.

Mae'r Grŵp Llywio Cynhwysiad Digidol yn cyrraedd diwedd y rhaglen waith a ddechreuwyd ganddo. Y bwriad yw y bydd y rhaglen yn cyflwyno rhwydwaith lle gall partneriaid barhau i gefnogi'i gilydd a dysgu gan ei gilydd, wrth wreiddio 'cynhwysiad digidol' yng nghylch gorchwyl yr holl waith arall a gyflwynir gan y BGC.

## Gweithio ar y Cyd



Un o amodau grant Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi Cydlynu'r BGC yw y dylid ystyried gweithio'n rhanbarthol, lle bo hynny'n synhwyrol.

Mae Cydlynwyr CNPT ac Abertawe wedi bod yn cydweithio'n agos drwy gydol y flwyddyn ac maent wedi gwerthfawrogi'r cyfle i rannu syniadau ac arfer da. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys:

- Hyfforddiant ar y cyd i awduron adroddiadau, gan drafod ymagweddau ysgrifennu 'Saesneg Clir';
- Hyfforddiant adrodd straeon digidol, fel ffordd flaengar o arddangos gwaith y Byrddau. Gallwch weld enghreifftiau yn yr adroddiad hwn.



*7 - Digital Story Telling Training*

- Roedd cydweithio gyda chydlynwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a lefel uchel o fapio ffrydiau gwaith ar draws BGC a'r BPRh eisoes wedi dechrau i sicrhau y gallwn gydweithio ac ategu'n gilydd yn y meysydd hynny sy'n gorgyffwrdd. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy 2020/21.
- Data ac Ymchwil - sefydlwyd grŵp amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r ddau ranbarth. Mae cynlluniau ar waith i sicrhau y gellir diwygio asesiad lles y dyfodol mewn ffordd gydweithredol a fydd yn gwneud y cynnydd yn fwy effeithlon i asiantaethau sy'n gweithio ar draws y ddau ranbarth. Bydd y grŵp hwn hefyd yn cefnogi'r gwaith rhanbarthol sy'n cael ei wneud ynghylch camddefnyddio sylweddau - gweler isod.
- Disgwyliwyd i bartneriaid gymryd rhan mewn hyfforddiant Model Rhesymeg ym mis Mawrth, er mwyn cefnogi ymagwedd gyson at werthuso ar draws y byrddau. Yn anffodus bu'n rhaid canslo'r hyfforddiant oherwydd cychwyniad COVID-19. Rydym yn gobeithio parhau â'r ymagwedd hon cyn gynted ag y bydd yn bosib i ni wneud hynny.

## *Camddefnyddio Sylweddau*

Yn dilyn adroddiadau am lefelau uchel o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau, heintiau difrifol a thwf mewn troseddau cyfundrefnol ar draws yr ardal yn 2018, ffurfiwyd Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol. Daeth yr aelodau o amrywiaeth eang o asiantaethau i asesu'r risg, y bygythiadau a'r niwed yn fanwl er mwyn llunio ymateb uniongyrchol a phriodol. Roedd gwaith wedi parhau i ddatblygu drwy gydol 2019/2020. Mae cyflawniadau allweddol ar gyfer eleni'n cynnwys y canlynol:

- Mae gan Uwch-arweinwyr well dealltwriaeth o'r risg, y bygythiad a'r niwed ar draws rhanbarth Gorllewin Morgannwg;
- Mae gwaith y Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol wedi arwain at welliant sylweddol o ran cynnwys asiantaethau yng ngwaith y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r agenda gysylltiedig ehangach;
- Mae'r BCA wedi cryfhau ei drefniadau llywodraethu a hefyd wedi cryfhau'r tîm rhanbarthol sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd;
- Gwnaed gwelliannau'n syth i amserau aros ar gyfer triniaeth *Amnewidion Opiadau* (OST), ac mae gwaith allgymorth bach wedi arddangos ei bod hi'n bosib creu ffyrdd gwell o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r llwyddiant o ran ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth wedi rhoi mwy o straen ar wasanaethau OST. Ar 13 Ionawr 2020, fel mesur tymor byr, cymeradwywyd £170,000m ar gyfer adnoddau ychwanegol;
- Cafodd cefnogaeth iechyd cyhoeddus allanol ei chaffael gan y BCA i adolygu'r model gwasanaeth presennol a sefydlu cynigion i ddatblygu model sy'n fwy addas at y diben. Cwblhawyd y gwaith hwn, a bydd y BCA yn bwrw ymlaen â'r gwaith i ailgomisiynu yn erbyn y model gwasanaeth diwygiedig yn 2020/21. Profwyd y cynigion gyda rhanddeiliaid.
- Gwnaed ymdrech sylweddol i gynyddu ymwybyddiaeth o farwolaethau sy'n ymwneud â chyffuriau a Llinellau Sirol (County Lines) o fewn asiantaethau a chymunedau ehangach. Mae angen i'r gwaith hwn barhau.
- Diwygiwyd hyfforddiant diogelu i gynnwys y bygythiad ynghylch marwolaethau sy'n ymwneud â chyffuriau a Llinellau Sirol mewn rhaglenni craidd.
- Mae gwaith wedi dechrau i sicrhau bod y system adrodd am achosion angheuol a rhai nad ydynt yn angheuol yn gadarn. Mae'n hanfodol bod asiantaethau'n ymwneud â'r gwaith hwn yn llawn.
- Mae gwaith wedi dechrau i sicrhau bod gwasanaethau lleihau niwed yn effeithiol.
- Mae meysydd gwella'n cael eu nodi gan yr Arweinydd Lleihau Niwed.
- Mae gwaith yn datblygu o ran edrych yn fanylach ar y problemau a geir ar Y Stryd Fawr yn Abertawe.Mae asiantaethau'n cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth yn well er mwyn mynd i'r afael â bygythiad llinellau sirol.

Er gwaetha'r uchod, rydym yn parhau i weld nifer uchel o farwolaethau yn y rhanbarth gyda marwolaethau o ganlyniad i gocên yn dechrau ymddangos yn ogystal â chynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n rhan o'r garfan.

Wrth symud ymlaen, mae'r ddau fwrdd gwasanaethau cyhoeddus wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Mae angen i ni gynnal arweinyddiaeth ac ymrwymiad asiantaethau i'r agenda;
- Mae angen i ni gynnal y ffocws ar y garfan, gan sicrhau bod gweithgarwch lleihau niwed yn canolbwyntio ar y rheini sydd yn y perygl mwyaf a bod ymyriadau o'r fath yn effeithiol;
- Mae angen i ni ymgymryd â darn o waith sydd wedi'i ystyried yn fwy, gan fabwysiadu ymagwedd iechyd cyhoeddus i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth glir a chynhwysfawr o'r darlun risg, bygythiad a niwed; pam mae cymunedau CNPT ac Abertawe'n ymddangos yn

fwy diamddiffyn, sut mae'r darlun yn newid dros amser; a sut mae'r ymyriadau'n debygol o fod yn effeithiol; mae'n rhaid ystyried arferion gorau'r DU a rhai rhyngwladol;

Bydd yr Heddlu a Chyngor CNPTynarwain y gwaithar ran partneriaid.



## *Atal Hunanladdiad*

Y llynedd, nododd ymchwil a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod angen rhoi sylw mawr i atal hunanladdiad ar draws ardaloedd CNPT ac Abertawe. Mae'r darn hwn o waith yn cael ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd, gyda chyd-bwyllgor BSG CNPT ac Abertawe'n ei oruchwylio.

Sefydlwyd Grŵp Amlasiantaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio, gydag Iechyd Cyhoeddus yn ei gadeirio a chyd-bwyllgor BSG CNPT ac Abertawe'n ei oruchwylio. Mae llwyth gwaith presennol y grŵp yn cynnwys:-

Data Lleol - mae'r grŵp wedi cysylltu â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i ofyn iddo gynnal swyddogaeth rhannu data ar gyfer asiantaethau. Gan ddod â'r data ynghyd o wahanol ffynonellau i ffurfio un cyfres ddata gyffredin, gallant sicrhau bod asiantaethau'n cael gwybod am wybodaeth hanfodol yn amserol er mwyn llywio cynllunio yn y dyfodol. Mae Heddlu De Cymru wedi dweud eu bod yn ystyried sut gall yr heddlu nodi achosion ‘cael a chael’ yn ogystal â hunanladdiadau a gyflawnwyd.

Ar hyn o bryd mae ymchwil yn cael ei wneud ar ddynion oed gwaith fel grŵp risg uchel, mewn cydweithrediad â'r Gweilch yn y Gymuned a Tata Steel. Bu'n rhaid gohirio'r digwyddiad iechyd meddwl a lles i glybiau rygbi lleol, a drefnwyd ar gyfer 6 Mai mewn partneriaeth â'r Gweilch, oherwydd Coronafeirws. Cyllid gan Lywodraeth Cymru oedd yn cefnogi'r digwyddiad, ac fe'i talwyd i'r Gweilch yn y Gymuned fel grant. Maent wedi dweud bod yr arian wedi'i glustnodi a byddwn yn aildrefnu'r digwyddiad yn y dyfodol.

Mae proses ymateb brys amlasiantaeth yn cael ei datblygu i oedolion a phlant ar draws CNPT ac Abertawe yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus a dreialwyd yn Abertawe ym mis Awst 2019. Cafodd y broses i blant ei chymeradwyo gan y Bwrdd Diogelu ar y Cyd ym mis Mawrth fel yr ymagwedd ranbarthol. Nid yw’r broses i oedolion wedi’i chymeradwyo eto ond cynhaliwyd y broses ymateb brys gyntaf fel peilot ar gyfer menyw sy'n oedolyn ar 22 Ebrill.

Does gan y rhaglen waith hon ddim arian neu adnoddau ychwanegol, ac felly mae hyn wedi oedi cyflymdra'r cynnydd dros 2019-20. Mae'n debygol y bydd hyn yn parhau i gael effaith wrth symud ymlaen, gyda galwadau cystadleuol.

Mae'r oedi o ran aros i Lywodraeth Cymru gadarnhau a fydd unrhyw arian i gefnogi'r gwaith wedi atal cynnydd ar rai o'r camau gweithredu y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth.

Bydd cefnogaeth ac ymrwymiad asiantaethau i ddatblygu'r gwaith hwn yn hanfodol i gynnal cynnydd

## *Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar*

Gwahoddwyd BGC CNPT, gan Lywodraeth Cymru, i gymryd rhan yn y fenter Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ar sail rhanbarthol, drwy gydweithio gyda BGC Abertawe, ac fe'i cysylltir yn agos â menter y 1000 Diwrnod Cyntaf a'r peilot Cymuned i Blant yng ngorllewin Sandfields dan Amcan Lles 1.

Eleni mae BGC CNPT ac Abertawe wedi cydweithio i wella system y blynyddoedd cynnar i deuluoedd â phlant, o feichiogrwydd tan 7 oed. Hyd yn hyn, mae'r rhaglen Fraenaru wedi mapio'r holl wasanaethau perthnasol sy'n cynnwys iechyd, cefnogaeth i deuluoedd, dysgu a chwarae, ac mae wedi ymgynghori â gweithwyr proffesiynol ynghylch cyfleoedd posib i integreiddio rhai agweddau ar y rhaglen fraenaru fel y gall teuluoedd symud drwy wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion yn ddi-drafferth.

Cam nesaf y broses yw ymgysylltu â theuluoedd a chael gwell mewnwelediad i'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, a phrofi ffyrdd newydd o weithio'n lleol. Bydd cynlluniau peilot llwyddiannus yn llywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio yn y dyfodol, a chânt eu hyrwyddo ar draws CNPT ac Abertawe.



## *Cynghorau Tref a Chymuned*

Mae ein Cynghorau Tref a Chymuned lleol yn parhau i gael eu cynrychioli ar y Bwrdd. Byddant yn rhoi'r diweddaraf am eu cynlluniau i gefnogi amcanion lles eleni ac yn cynnwys y rhain yn eu hadroddiadau blynyddol. Darperir dolenni i'r adroddiadau blynyddol isod:-

[Cyngor Cymuned Coedffranc]

[Cyngor Cymuned Blaenhonddan]

[Cyngor Tref Neath]

## Edrych i'r dyfodol



Ym mis Medi 2019, roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn teimlo bod angen adolygu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran yr amcanion lles dewisol er mwyn asesu'r hyn a oedd yn gweithio'n dda, a'r hyn nad oedd yn gweithio cystal ac i ystyried a oedd y ffrydiau gwaith presennol yn gweithio o hyd, neu a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau. Gofynnwyd i'r swyddogion a oedd yn arwain yr amcanion lles edrych ar hyn yn fanwl a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Bwrdd i'w hystyried.

Cynhaliwyd dau weithdy yr aeth Swyddogion Arweiniol iddynt a hefyd gynrychiolwyr Heddlu De Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a CGG Castell-nedd Port Talbot. Rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyflwyniad ar 'Iechyd a Lles i Bawb', a oedd yn cynnwys dadansoddiad lleol o les yn CNPT a mewnwelediad i'r penderfynyddion iechyd ehangach.

Gwnaed yr argymhellion canlynol i'r BGC a chytunwyd arnynt ym mis Mawrth 2020:-

- Mae holl asiantaethau partner y BGC yn mabwysiadu dealltwriaeth a rennir o'r diffiniad o Les, yn seiliedig ar y Model Iechyd Cyhoeddus

- Bydd gwaith y Bwrdd yn y dyfodol yn dilyn ymagwedd sy'n seiliedig ar leoedd ac yn canolbwyntio ar y 3 ardal beilot bresennol, sef Gorllewin Sandfields, Llansawel/Melin a Dyffryn Aman Uchaf.

- Caiff yr holl amcanion lles eu cynnwys yn ymagwedd yr ardaloedd peilot a chaiff y ffrydiau gwaith eu harwain gan gymunedau drwy ddilyn ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau.

- Bydd gwaith ar gamddefnyddio sylweddau ac atal hunanladdiad yn parhau ar sail rhanbarthol, a bydd y Bwrdd yn parhau i ymateb i broblemau lleol wrth iddynt ddod i'r amlwg.

- Caiff grŵp data ac ymchwil ei sefydlu fel is-grŵp i'r BGC, a bydd yn darparu'r data sy'n angenrheidiol ar gyfer dilyn ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hefyd yn gweithio tuag at nodi tueddiadau yn y dyfodol.

- Fel BGC, rydym yn trefnu rhywfaint o weithgarwch 'Datblygu Arweinyddiaeth' o gwmpas y model lles Iechyd Cyhoeddus er mwyn gweithio tuag at wella gwybodaeth am iechyd a lles yn ein holl gynlluniau corfforaethol.

- Rydym yn archwilio rhai cyfleoedd datblygu'r gweithlu a fydd yn rhan o'r amcan 'Lles yn y Gweithlu'

Mae sefyllfa argyfyngus COVID-19 wedi amharu'n sylweddol ar waith y Bwrdd ers mis Mawrth 2020, a hyd y gellir rhagweld, bydd yn rhaid i'r BGC ganolbwyntio ar effaith uniongyrchol y sefyllfa frys ar les a diogelwch pobl ar draws y fwrdeistref sirol, a hefyd dreulio amser yn myfyrio ar effaith tymor hwy'r argyfwng, a sut bydd angen i hyn lywio blaenraglen waith gytunedig y Bwrdd.

Bydd y gweithgareddau gwaith cychwynnol yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o'r effeithiau ar gymunedau. Yna caiff yr Asesiad Effaith Cymunedol ei ystyried gan y Bwrdd er mwyn penderfynu ar ffocws y gwaith ar gyfer 2020-21.

## Sut gallwch chi olrhain y cynnydd a bod yn rhan o'n gwaith?

Caiff y gwaith a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyhoeddi ar ei wefan, sydd ar gael yn http://www.nptpsb.org.uk/

Gallwch hefyd gysylltu â Chydlynydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn uniongyrchol drwy e-bostio nptpsb@npt.gov.uk neu ffonio 01639 763319. Rydym yn croesawu cyfranogaeth mewn unrhyw faes o'n gwaith a byddem yn croesawu syniadau ac awgrymiadau am feysydd eraill o waith y gallem eu hystyried yn y dyfodol

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â Chydlynydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (gweler y manylion uchod). Neu gallwch ysgrifennu at Gydlynydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ.

## Diolch i chi am ddarllen!

